



Cross-Party Group  
on Liver Disease  
and Liver Cancer

## Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd yr Afu a Chanser yr Afu

### Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol 2022-2023

<b>Teitl y Grŵp Trawsbleidiol</b>	Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd yr Afu a Chanser yr Afu
<b>Enw Cadeirydd y Grŵp</b>	Joel James AS
<b>Enwau Aelodau eraill o'r Senedd:</b>	Jane Dodds AS Sarah Murphy AS Mabon ap Gwynfor AS Altaf Hussain AS Mike Hedges AS
<b>Enw'r Ysgrifennydd a'r Sefydliad:</b>	Paul McGlinchey Ymddiriedolaeth Afu Prydain
<b>Enwau'r aelodau allanol eraill a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli:</b>	Dr Andrew Yeoman (arweinydd clinigol ar gyfer Rhwydwaith Gweithredu Clefyd yr Afu) William Williams (eiriolwr cleifion)

### Rhagair gan Joel James AS (Cadeirydd):

Ers ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf, mae ein Hysgrifenyddiaeth wedi cynnal 2 sioe deithiol Carwch Eich Afu yn y Senedd ([Mawrth 2022](#) a [Mawrth 2023](#)) i helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ffactorau risg ar gyfer clefyd yr afu. Rydym wedi cyflwyno dros 50 o Gwestiynau Seneddol ac wedi sicrhau'r [ddadl gyntaf erioed ar glefyd yr afu a chanser yr afu yn y Senedd](#) ym mis Ionawr 2023 a sicrhodd ymgysylltiad sylweddol â'r cyfryngau ac a helpodd i symud iechyd yr iau i fyny'r agenda wleidyddol.

Gyda chefnogaeth barhaus gan seneddwyr ar draws y sbectrwm gwleidyddol, rydym wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o raddfa gynyddol argyfwng iechyd y cyhoedd clefyd yr afu yng Nghymru. Mae lleisiau cleifion wedi bod yn ganolog i'n gwaith ac rydym wedi cymryd tystiolaeth gan 3 chlaf a siaradodd yn rymus am bwysigrwydd hanfodol mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran canlyniadau a gofal clefyd yr afu.

Yn anffodus, mae marwolaethau oherwydd clefyd yr afu wedi cynyddu 23% yn y 2 flynedd ddiwethaf yn unig ac mae bron i 9 o bob 10 o bobl â chanser yr afu yn marw o fewn 5 mlynedd i gael diagnosis. Ysgogwyd hyn gan gamddefnyddio alcohol, hepatitis feirysol ac yn sylweddol gan ordewdra.

Yn dilyn eiriolaeth barhaus dan arweiniad cleifion, clinigwyr, seneddwyr a'r trydydd sector, mae Cymru wedi torri tir drwy gyhoeddi [Y Datganiad Ansawdd ar gyfer Clefydau'r Afu](#) ym mis Tachwedd 2022, a thrwy gyflwyno'r rhaglen [Llwybr Prawf Gwaed Afu Annormal Cymru Gyfan](#) ledled y wlad y flwyddyn flaenorol.

Fodd bynnag, mae'n hollbwysig ein bod yn pontio'r bwlch gweithredu i wella canlyniadau goroesi ac iechyd i gleifion clefyd yr afu a chanser yr afu ledled Cymru. Gellir gwneud mwy ac mae'n rhaid gwneud mwy a'n huchelgais yw cyflymu diagnosis cynharach, mynd i'r afael â phrinder gweithlu cronig a lleihau anghydraddoldebau iechyd difrifol ac amrywiadau diangen mewn gofal i gleifion ledled Cymru.

Credwn mai'r unig ffordd o gyflawni hyn yw trwy well goruchwyliaeth ac atebolrwydd trwy Rwydwaith Gweithredu Clefyd yr Afu cadarn gydag adnoddau.

**Cyfarfodydd Blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf**

<b>Cyfarfod 1</b>	
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	Dydd Iau 6 Hydref (rhithwir) 2022
<b>Yn bresennol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Joel James AS (Cadeirydd)</li> <li>• Huw Irranca-Davies AS</li> <li>• Altaf Hussain AS</li> <li>• Mike Hedges AS (cynrychiolir gan Ryland Doyle   staff cymorth)</li> <li>• Lee Gonzalez</li> <li>• Richard Daniels, Ymddiriedolaeth Afu Prydain</li> <li>• Paul McGlinchey (Ymddiriedolaeth Afu Prydain)</li> <li>• Sarah Lowther (Ymddiriedolaeth Afu Prydain)</li> <li>• William Williams (eiriolwr cleifion)</li> <li>• Andrew Yeoman (arweinydd clinigol, LDIG)</li> <li>• Kate Pronger (Nyrs Arweiniol Tîm Gofal Alcohol Arbenigol)</li> <li>• John Bell (eiriolwr cleifion)</li> <li>• Felicity Oppe (eiriolwr cleifion)</li> <li>• Phil Murray (eiriolwr cleifion)</li> </ul>
<b>Crynodeb o'r materion a drafodwyd</b>	<p><u>Crynodeb:</u> Ar ddydd Iau 6 Hydref, cynhaliodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd yr Afu a Chanser yr Afu gyfarfod i gasglu tystiolaeth gan gleifion a chlinigwyr ar yr hyn sydd ei angen yn y cyfarfod sydd i ddod gan Lywodraeth Cymru. Y Datganiad Ansawdd ar gyfer Clefydau'r Afu er mwyn mynd i'r afael ag amrywiadau enfawr mewn canlyniadau triniaeth a gofal i gleifion clefyd yr afu ledled Cymru. Clywsom gan 3 o eiriolwyr cleifion clefyd yr afu, Felicity, John a Phil a rannodd dystiolaeth rymus ag Aelodau'r Senedd. Amlygodd eu straeon effaith oedi diagnosis a stigma ar ganlyniadau clefyd yr afu sy'n gwaethygu. Tynnodd Dr Andrew Yeoman (Arweinydd Clinigol, Grŵp Gweithredu Clefyd yr Afu) sylw at y datblygiadau arloesol diweddaraf a'r arferion da sy'n dod i'r amlwg o ran diagnosis cynnar o glefyd yr afu yng Nghymru gan gynnwys cyflwyno'r Llwybr Profion Gwaed Afu Cymru Gyfan newydd yn genedlaethol. Canolbwyntiodd Kate Pronger (Ymarferydd Cyswllt Alcohol Arweiniol BIPAB) ar rôl hanfodol gwasanaethau cymorth alcohol saith diwrnod wrth fynd i'r afael ag ymddygiad</p>

	<p>yfed niweidiol, lleihau derbyniadau a gwella canlyniadau iechyd.</p> <p><u>Galwad am weithredu:</u> Daeth y digwyddiad i ben gyda Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, Joel James AS, yn galw am weithredu. Anogwyd Aelodau'r Senedd i lofnodi llythyr trawsbleidiol yn gofyn am gyfarfod â'r Farwnes Morgan (Gweinidog Iechyd) i drafod blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn Y Datganiad Ansawdd ar gyfer Clefydau'r Afu sydd ar ddod er mwyn mynd i'r afael ag amrywiadau mewn diagnosis cynnar, canlyniadau triniaethau a gofal ledled Cymru. Fe wnaeth Joel hefyd ysgogi cefnogaeth i ddadl sydd i ddod ar yr argyfwng iechyd cyhoeddus clefyd yr afu yn y Senedd.</p>
<b>Gohiriwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o fis Mawrth 2023 i fis Tachwedd 2023</b>	<i>Nodwch fod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi'i drefnu'n flaenorol ar gyfer dydd Mercher 15 Mawrth 2023 ond yn anffodus bu'n rhaid ei ganslo oherwydd streic annisgwyl a chau'r Senedd.</i>
<b>Cyfarfod 2</b>	<b>Sesiwn dystiolaeth gyda chleifion a chlinigwyr ar yr hyn sydd ei angen yn Y Datganiad Ansawdd ar gyfer Clefydau'r Afu, Llywodraeth Cymru sydd ar ddod</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2023 (ystafell gynadledda A, Y Senedd) gyda threfniadau hybrid
<b>Yn bresennol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Joel James AS (Cadeirydd)</li> <li>• Russell George AS</li> <li>• Jenny Rathbone AS</li> <li>• Sarah Murphy AS + cynorthwydd</li> <li>• Julie Morgan AS + cynorthwydd</li> <li>• Heledd Morgan AS</li> <li>• Dr Lee Gonzalez</li> <li>• Mathew Norman, (Diabetes UK Cymru)</li> <li>• Richard Daniels, (Ymddiriedolaeth Afu Prydain)</li> <li>• Paul McGlinchey (Ymddiriedolaeth Afu Prydain)</li> <li>• Julie Adams (Ymddiriedolaeth Afu Prydain)</li> <li>• William Williams (eiriolwr cleifion)</li> <li>• Andrew Yeoman (arweinydd clinigol, LDIG)</li> <li>• Claire Willams (Diabetes UK)</li> <li>• Julie Harrington (Guts UK)</li> </ul>
<b>Crynodeb o'r materion a drafodwyd</b>	Ar ddydd Mawrth 7 Tachwedd, cynhaliodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd yr Afu a

Chanser yr Afu gyfarfod cyffredinol blynyddol a thrafodaeth banel lefel uchel ar atebion polisi i fynd i'r afael â'r argyfwng gordewdra a chlefyd yr afu brasterog yng Nghymru. Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys Joel James AS (Cadeirydd), Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Jenny Rathbone AS a Mathew Norman (Dirprwy Gyfarwyddwr, Diabetes UK Cymru). Diolchodd Joel James AS (Cadeirydd) i'r panelwyr a'r rhai yn bresennol am gymryd amser i gefnogi'r digwyddiad pwysig hwn ar fynd i'r afael â gordewdra cynyddol a chlefyd yr afu brasterog yng Nghymru; darparodd sylwadau rhagarweiniol ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn tynnu sylw at gynnydd diweddar gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd yr Afu a Chanser yr Afu o ran codi proffil argyfwng iechyd y cyhoedd clefyd yr afu yng Nghymru. Agorodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Russell George AS, y drafodaeth banel drwy dynnu sylw at faich sylweddol afiechyd sy'n gysylltiedig â gordewdra yng Nghymru gyda dwy ran o dair o'r boblogaeth dros bwysau neu'n ordew a diagnosis clefyd yr afu brasterog yn cynyddu 20 gwaith yn fwy dros 2 ddegawd. Amlygodd cynrychiolydd Cynghrair Gordewdra Cymru, Mathew Norman (Dirprwy Gyfarwyddwr, Diabetes UK Cymru), ragamcanion diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG mewn 10 mlynedd a mwy sy'n cydnabod mynychder cynyddol clefydau anhrosglwyddadwy (e.e. clefyd cardiofasgwlaidd, clefyd yr afu, diabetes) sydd yn gysylltiedig â ffactorau risg y gellir eu haddasu (alcohol, ysmegu, bwydydd â braster, siwgr a halen uchel), gan nodi effaith cyflyrau hirdymor ac amlafiachedd ar bwysau enfawr ar y GIG y gellir ei hosgoi. Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Jenny Rathbone AS, sylw at effaith ddifrifol bwyd wedi'i brosesu'n helaeth (UPF) ar ehangu'r bwllch mewn disgwyliad oes iach gan gynnwys yn ei hetholaeth ei hun; gan nodi bod UPF wedi'i reoleiddio'n wael a bod ganddo dreiddiad arbennig yn y DU a'r Unol Daleithiau sy'n

	<p>ysgogi gordewdra yn y boblogaeth a chyflyrau y gellir eu hatal megis clefyd y galon a diabetes. Nododd Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta, Sarah Murphy AS (aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol), ei bod yn wych gweld un o'i hetholwyr o Ben-y-bont ar Ogwr yn mynychu o bell (William) gan ei fod yn eiriolwr brwd dros wella canlyniadau i gleifion clefyd yr afu yng Nghymru; nododd gymhlethdod ynghylch gweithredu Pwysau Iach: Cymru Iach mewn ysgolion a sicrhau sensitifrwyd i blant categorïau sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu sy'n fwy tebygol o ddatblygu anhwylderau bwyta; pwysleisiodd effaith yr argyfwng costau byw ar y cartrefi tlotaf gyda banciau bwyd yn nodi bod tlodi tanwydd yn rhwystro teuluoedd rhag gallu coginio hyd yn oed pasta neu reis; amlygodd ymhellach arloesi lleol ac arfer da yn ei hetholaeth ei hun (e.e. Cynllun Bagiau Llysiau Fferm Slade).</p> <p><u>Galwad am weithredu:</u> Daeth y digwyddiad i ben gyda Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, Joel James AS, yn galw am weithredu. Anogwyd Aelodau'r Senedd i gyflwyno Cwestiynau Seneddol pwrpasol a llofnodi llythyr trawsbleidiol at y Farwnes Morgan (Gweinidog Iechyd) ynghylch cryfhau'r oruchwyliaeth ar gyfer atal a diagnosis cynharach o glefyd yr afu yng Nghymru. Cytunwyd hefyd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn cyhoeddi adroddiad 'cyflwr y genedl' ar glefyd yr afu a chanser yr afu yng Nghymru yn 2024.</p>
--	--

**Lobiwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r grŵp wedi cyfarfod â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol.**

Enw'r sefydliad	Enw'r grŵp
Crohns & Colitis UK (Awst 2023)	Cynghrair Gordewdra Cymru (Hydref 2023)
Sefydliad Prydeinig y Galon (Hydref 2023)	Is-grŵp LSCT Cymru (Medi 2023)
Diabetes UK Cymru (Hydref 2023)	Cynghrair Canser Cymru (Ionawr a Gorffennaf 2022, Ionawr, Mawrth, Gorffennaf a Medi 2023)

**Datganiad Ariannol Blynyddol**

**Enw'r Cadeirydd:** Joel James AS



Cross-Party Group  
on Liver Disease  
and Liver Cancer

**Enw'r Ysgrifennydd a'r Sefydliad:** Paul McGlinchey, Ymddiriedolaeth Afu Prydain

<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Swm</b>
Treuliau'r Grŵp	Dim.	£0.00
Buddion a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrrff allanol	Dim nwyddau wedi'u prynu.	£0.00
Unrhyw gymorth ariannol neu gymorth arall	Ni chafwyd buddion.	£0.00
Cyfanswm	Amherthnasol	£0.00

**Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch.**

**Ymddiriedolaeth Afu Prydain wedi talu am y lletygarwch i gyd**

<b>Dyddiad</b>	<b>Enw'r darparwr a disgrifiad o'r darparwr</b>	<b>Costau</b>
<b>Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2023 (Ystafell gynadledda A, Y Senedd)</b>	Lluniaeth (te, coffi, dŵr potel) trefnwyd drwy Reolwr Lletygarwch y Senedd.	£52.65 (heb gynnwys TAW)
<b>Cyfanswm y gost</b>		£63.18 (yn cynnwys TAW)